CYNGOR CYMUNED LLANBEDR-Y-FRO
PETERSTON-SUPER-ELY COMMUNITY COUNCIL

CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2026 | WELSH LANGUAGE SCHEME 2026

DRAFFT I'W FABWYSIADU A'I GYMERADWYO | DRAFT FOR ADOPTION AND APPROVAL

Mabwysiadwyd / Adopted	12/10/2026	**Cofnod / Minute**	10/10
Cymeradwywyd / Approved	27/10/2026	**Adolygiad nesaf / Next review**	Hydref/ October 2030

CYMRAEG	ENGLISH
1. Statws a sail gyfreithiol Mae Cyngor Cymuned a Llanbedr-y-Fro wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a darparu gwasanaethau yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Ni chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.	**1. Status and legal basis** Peterston-super-Ely Community Council has adopted the principle that, when conducting public business and providing services in Wales, it will treat Welsh and English on a basis of equality. Welsh will not be treated less favourably than English.
Paratowyd y Cynllun o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae'n rhoi sylw i egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r ymrwymiadau yn y Cynllun hwn yn rhwymo'r Cyngor ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg.	This Scheme has been prepared under the Welsh Language Act 1993 and has regard to the principles of the Welsh Language (Wales) Measure 2011. The commitments in this Scheme bind the Council once it has been approved by the Welsh Language Commissioner.
Nid yw'r Cynllun yn disodli unrhyw ddyletswyddau penodol a osodir ar y Cyngor yn y dyfodol drwy safonau'r Gymraeg, hysbysiad cydymffurfio neu ddeddfwriaeth arall.	The Scheme does not replace any specific duties that may in future be imposed on the Council through Welsh language standards, a compliance notice or other legislation.
2. Nodau ac egwyddorion Nod y Cyngor yw galluogi pawb sy'n defnyddio ei wasanaethau, yn cysylltu ag ef neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd i wneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl eu dewis.	**2. Aims and principles** The Council aims to enable everyone who uses its services, contacts it or contributes to the democratic process to do so in Welsh or English, according to their choice.
Bydd y Cyngor yn cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol lle bo hynny'n ymarferol, yn hytrach na dibynnu'n unig ar geisiadau unigol; bydd yn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei waith ac yn y gymuned.	The Council will offer Welsh-language services proactively where practicable, rather than relying solely on individual requests; it will seek to increase the use of Welsh in its work and in the community.
Bydd gwasanaethau yn y ddwy iaith o safon gyfartal, yr un mor hawdd eu defnyddio ac ar Gael heb oedi afresymol. Ni ddylai dewis defnyddio'r Gymraeg arwain at anfantais.	Services in both languages will be of equal quality, equally easy to use and available without unreasonable delay. Choosing to use Welsh should not result in disadvantage.

CYMRAEG	ENGLISH
3. Cwmpas a chyfrifoldebau Mae'r Cynllun yn gymwys i aelodau etholedig, y Clerc, unrhyw gyflogeion, gwirfoddolwyr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor, a chontractwyr neu drydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar ran y Cyngor.	**3. Scope and responsibilities** The Scheme applies to elected members, the Clerk, any employees, volunteers acting on behalf of the Council, and contractors or third parties delivering public services on the Council's behalf.
Y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y Cynllun. Y Clerc sy'n gyfrifol am ei weithredu o ddydd i ddydd, am drefnu cyfieithu neu gymorth iaith, am gadw cofnodion ac am adrodd ar berfformiad. Rhaid i aelodau a staff ystyried y Cynllun wrth gyflawni eu dyletswyddau.	The Council has overall responsibility for the Scheme. The Clerk is responsible for day-to-day implementation, arranging translation or language support, maintaining records and reporting performance. Members and staff must have regard to the Scheme when carrying out their duties.
Bydd y Cyngor yn cadw trefniadau ymarferol wrth gefn fel bod modd cyflawni'r ymrwymiadau pan nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.	The Council will maintain practical contingency arrangements so that commitments can be met when no Welsh-speaking member of staff is available.
4. Penderfyniadau polisi Wrth lunio, adolygu neu newid polisi, prosiect, gwasanaeth neu drefniant ariannu, bydd y Cyngor yn ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	**4. Policy decisions** When formulating, reviewing or changing a policy, project, service or funding arrangement, the Council will consider positive and negative effects on opportunities to use Welsh and on not treating Welsh less favourably than English.
Bydd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg mewn ymgynghoriadau, ceisiadau cynllunio, enwau lleoedd, arwyddion a datblygiadau cymunedol.	Appropriate consideration will be given to Welsh in consultations, planning applications, place names, signage and community developments.
5. Gohebiaeth, ffurflenni a dogfennau Croesewir gohebiaeth drwy'r post, e-bost neu ddull electronig yn Gymraeg neu yn Saesneg. Atebir gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd defnyddio'r Gymraeg ynddo'i hun yn achosi oedi afresymol.	**5. Correspondence, forms and documents** Correspondence by post, email or electronic means is welcomed in Welsh or English. Welsh correspondence will be answered in Welsh, and using Welsh will not in itself cause unreasonable delay.
Bydd y Cyngor yn cofnodi dewis iaith person, pan fydd yn hysbys ac yn briodol, ac yn defnyddio'r iaith honno mewn gohebiaeth ddilynol. Bydd llofnodion e-bost, negeseuon awtomatig a negeseuon allan o'r swyddfa sy'n wynebu'r cyhoedd yn ddwyieithog.	The Council will record a person's language preference, where known and appropriate, and use that language in subsequent correspondence. Public-facing email signatures, automated replies and out-of-office messages will be bilingual.
Bydd ffurflenni, hysbysiadau statudol, ymgynghoriadau, deunydd etholiadol y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, a dogfennau cyhoeddus allweddol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn cael eu trin yn gyfartal. Bydd y Cyngor yn egluro y gall y cyhoedd ddefnyddio unrhyw iaith maen nhw eisiau.	Forms, statutory notices, consultations, electoral material for which the Council is responsible, and key public documents will be available in Welsh and English and treated equally. The Council will make clear that the public may use either language.

CYMRAEG	ENGLISH
6. Galwadau ffôn a chyfarfodydd unigol Bydd y Cyngor yn croesawu galwadau yn Gymraeg. Os na all y sawl sy'n ateb ddarparu gwasanaeth Cymraeg, bydd yn cynnig trefnu galwad yn ôl gan siaradwr Cymraeg, defnyddio gwasanaeth cyfieithu neu dderbyn yr ymholiad yn Gymraeg drwy ddull arall, yn ôl dewis y person. Ni ofynnir i'r person ddefnyddio'r Saesneg fel yr unig ddewis.	**6. Telephone calls and individual meetings** The Council will welcome calls in Welsh. If the person answering cannot provide a Welsh service, they will offer to arrange a call back from a Welsh speaker or receive the enquiry in Welsh by another method, according to the person's choice. The person will not be required to use English as the only option.
Pan ofynnir am gyfarfod wyneb yn wyneb neu ar-lein yn Gymraeg, bydd y Cyngor yn ceisio trefnu aelod o staff, aelod etholedig neu gyfieithydd priodol. Cytunir ar drefniadau a therfyn amser rhesymol gyda'r person ymlaen llaw.	When a face-to-face or online meeting is requested in Welsh, the Council will seek to arrange an appropriate member of staff, elected member or interpreter. Arrangements and a reasonable timescale will be agreed with the person in advance.
7. Cyfarfodydd cyhoeddus a busnes democrataidd Bydd hysbysiadau, cynlluniau gwaith, cofnodion a dogfennau penderfyniadau cyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor ar gael yn Gymraeg a byddant ar gael heb oedi annheg pan fydd trefniant cyfieithu wedi cael ei gytuno.	**7. Public meetings and democratic business** Notices, Agendas, Minutes and public decision documents for Council meetings will be available in Welsh and will be made available without unreasonable delay where an agreed translation arrangement applies.
Bydd pob cyhoeddusrwydd am gyfarfod cyhoeddus o'r fath yn ddwyieithog.	All publicity for public meetings will be bilingual.
Pan fo'n hysbys i'r Cyngor fod aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfod cyhoeddus fyddai fel arall yn uniaith Saesneg, dylid parchu hynny trwy wneud y trefniadau cyfieithu priodol.	When the Council is aware that a member of the public wishes to speak Welsh in a public meeting that would otherwise be conducted in English, this should be respected by providing appropriate translation arrangements.
Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig megis taflenni neu sleidiau sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfod cyhoeddus sy'n trafod y Gymraeg, addysg Gymraeg, treth y Cyngor neu wybodaeth am etholiad/isetholiad lleol yn ddwyieithog.	Any written materials such as leaflets or slides that are used in public meetings about the Welsh language, Welsh medium education, Council Tax or information about local elections/by-elections will be bilingual.
8. Hunaniaeth, cyhoeddiadau ac arwyddion Bydd enw a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn ddwyieithog. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd; ni fydd testun Cymraeg yn cael ei osod fel pe bai'n llai pwysig.	**8. Identity, publications and signs** The Council's name and corporate identity will be bilingual. Both languages will be equal in size, quality, clarity and prominence; Welsh text will not be presented as though it is less important.
Bydd arwyddion a hysbysfyrddau yn ddwyieithog. Bydd hysbysebion, posteri, datganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau cyhoeddus a gynhyrchir gan y Cyngor ar gael yn Gymraeg.	Signs and noticeboards will be bilingual. Advertisements, posters, press releases and public publications produced by the Council will be available in Welsh.
Wrth enwi strydoedd, cyfleusterau, prosiectau neu asedau y mae ganddo awdurdod drostynt, bydd y Cyngor yn ystyried ffurfiau Cymraeg safonol ac yn ymgynghori â ffynonellau arbenigol pan fo angen.	When naming streets, facilities, projects or assets over which it has authority, the Council will consider standard Welsh forms and consult specialist sources where necessary.

CYMRAEG	ENGLISH
9. Gwefan, cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau digidol Bydd tudalennau craidd y wefan, manylion cyswllt, gwybodaeth am wasanaethau, hysbysiadau, agendas, cofnodion, ffurflenni a gwybodaeth am gwynion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.	**9. Website, social media and digital services** Core website pages, contact details, service information, notices, agendas, minutes, forms and complaints information will be available in Welsh and English.
Bydd cynnwys swyddogol ar y cyfryngau cymdeithasol ar gael yn Gymraeg, naill ai mewn post sengl neu mewn postiadau Cymraeg a Saesneg cyfatebol a gyhoeddir ar yr un pryd. Bydd atebion i negeseuon Cymraeg yn Gymraeg.	Official social-media content will be available in Welsh. Replies to Welsh messages will be in Welsh.
Bydd y Cyngor yn profi bod ffurflenni ar-lein, dolenni, capsiynau, testun amgen a dogfennau i'w lawrlwytho yn gweithio ac ar gael yn y ddwy iaith.	The Council will test that online forms, links, captions, alternative text and downloadable documents work and are available in both languages.
10. Grantiau, contractau a gwasanaethau trydydd parti Wrth ddyfarnu grant neu gomisiynu gwasanaeth cyhoeddus, bydd y Cyngor yn ystyried pa ofynion Cymraeg sy'n rhesymol ac yn berthnasol. Bydd y gofynion yn cael eu cynnwys yn y meini prawf, y fanyleb, y cytundeb neu'r contract ac yn cael eu monitro.	**10. Grants, contracts and third-party services** When awarding a grant or commissioning a public service, the Council will consider what Welsh-language requirements are reasonable and relevant. Requirements will be included in the criteria, specification, agreement or contract and monitored.
Ni fydd defnyddio contractwr, partner neu lwyfan allanol yn lleihau'r gwasanaeth Cymraeg y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w ddarparu.	Using a contractor, partner or external platform will not reduce the Welsh-language service that the Council has committed to provide.
11. Staffio, sgiliau a hyfforddiant The Council will assess the Welsh-language skills needed for each post or contract before recruitment. Job advertisements will state clearly whether Welsh is essential, desirable or to be learnt in post, with a recorded reason for the category.	**11. Staffing, skills and training** The Council will assess the Welsh-language skills needed for each post or contract before recruitment. Job advertisements will state clearly whether Welsh is essential, desirable or to be learnt in post, with a recorded reason for the category.
Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o sgiliau Cymraeg aelodau a staff, yn cefnogi hyfforddiant priodol ac yn darparu canllawiau ar ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu, cyfarchion Cymraeg sylfaenol ac offer digidol yn gyfrifol.	The Council will maintain a record of members' and staff Welsh-language skills, support appropriate training and provide guidance on using translation services, basic Welsh greetings and digital tools responsibly.
12. Cyfieithu a sicrhau ansawdd Bydd cyfieithiadau cyhoeddus yn gywir, yn glir ac yn addas i'r gynulleidfa. Defnyddir cyfieithydd cymwys neu wasanaeth dibynadwy ar gyfer deunydd swyddogol, cyfreithiol, sensitif neu uchel ei broffil.	**12. Translation and quality assurance** Public translations will be accurate, clear and suitable for the audience. A competent translator or reliable service will be used for official, legal, sensitive or high-profile material.
Ni ddefnyddir cyfieithu peirianyddol heb adolygiad dynol priodol ar gyfer testun swyddogol. Bydd enwau priod, termau safonol, dyddiadau, rhifau, dolenni a manylion cyswllt yn cael eu gwirio cyn cyhoeddi.	Machine translation will not be used for official text without appropriate human review. Proper names, standard terms, dates, numbers, links and contact details will be checked before publication.

CYMRAEG	ENGLISH
13. Cwynion ac adborth Gellir cyflwyno sylw, awgrym neu gŵyn am y Cynllun neu wasanaeth Cymraeg i'r Clerc yn Gymraeg neu yn Saesneg. Cydnabyddir cwyn o fewn 5 diwrnod gwaith a darperir ymateb llawn fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith. Os oes angen mwy o amser, rhoddir gwybod i'r achwynydd am y rheswm a'r dyddiad ymateb disgwyliedig.	**13. Complaints and feedback** A comment, suggestion or complaint about the Scheme or a Welsh-language service may be submitted to the Clerk in Welsh or English. A complaint will be acknowledged within 5 working days and a full response will normally be provided within 20 working days. If more time is needed, the complainant will be told why and given an expected response date.
Os nad yw'r achwynydd yn fodlon, gall ofyn i Gadeirydd y Cyngor adolygu'r ymateb. Ar ôl rhoi cyfle rhesymol i'r Cyngor ymateb, gall yr achwynydd gyfeirio'r mater at Gomisiynydd y Gymraeg yn unol â gweithdrefn y Comisiynydd.	If dissatisfied, the complainant may ask the Chair of the Council to review the response. After giving the Council a reasonable opportunity to respond, the complainant may refer the matter to the Welsh Language Commissioner in accordance with the Commissioner's procedure.
Manylion cyswllt: Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol, Cyngor Cymuned a Llanbedr-y-Fro; council@peterstonsuperely.org; d/o 11 Georgian Way, Miskin, Pontyclun, CF72 8SG.	Contact: Clerk / Responsible Financial Officer, Peterston-super-Ely Community Council; council@peterstonsuperely.org; c/o 11 Georgian Way, Miskin, Pontyclun, CF72 8SG.
14. Monitro, cofnodion ac adrodd Bydd y Clerc yn monitro cydymffurfiaeth ac yn cadw cofnodion cymesur o ohebiaeth Gymraeg, ceisiadau am wasanaeth Cymraeg, amseroedd ymateb, cyfieithiadau, trefniadau cyfarfodydd, sgiliau, hyfforddiant, contractau a chwynion.	**14. Monitoring, records and reporting** The Clerk will monitor compliance and keep proportionate records of Welsh correspondence, requests for Welsh services, response times, translations, meeting arrangements, skills, training, contracts and complaints.
Bydd y Cyngor yn ystyried ac yn cyhoeddi adroddiad monitro blynyddol. Bydd yn disgrifio sut y gweithredwyd y Cynllun, cynnydd yn erbyn camau neu dargedau, nifer a natur y cwynion, methiannau a chamau cywiro, a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Darperir yr adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg pan ofynnir amdano neu pan fo hynny'n ofynnol.	The Council will consider and publish an annual monitoring report. It will describe how the Scheme was implemented, progress against actions or targets, the number and nature of complaints, failures and corrective action, and priorities for the next year. The report will be provided to the Welsh Language Commissioner when requested or required.
15. Adolygu a diwygio Adolygir y Cynllun o leiaf bob pedair blynedd, ac yn gynharach os bydd gwasanaethau, amgylchiadau, canllawiau neu ddyletswyddau cyfreithiol yn newid, neu os bydd monitro neu gŵyn yn dangos bod angen newid.	**15. Review and amendment** The Scheme will be reviewed at least every four years, and sooner if services, circumstances, guidance or legal duties change, or if monitoring or a complaint indicates that change is needed.
Ni wneir newid sy'n lleihau ymrwymiad neu'n effeithio'n sylweddol ar y Cynllun heb ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg a chael cymeradwyaeth y Comisiynydd lle bo angen. Bydd y fersiwn gyfredol a'i dyddiad cymeradwyo yn cael eu cyhoeddi.	No change that reduces a commitment or materially affects the Scheme will be made without consulting the Welsh Language Commissioner and obtaining the Commissioner's approval where required. The current version and its approval date will be published.